DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Cosmeticlinic

5 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-4731-8


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Ansawdd Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 11

6. Y Camau Nesaf ........ 13

Atodiad A ........ 14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

[1]Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn dyddiad yr arolygiad

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau yn cofnodi ciplun o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[2]Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Dyma'r achos lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copïau o broses cydymffurfedd AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae Cosmeticlinic wedi'i gofrestru gydag AGIC fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau sy'n defnyddio Laser Dosbarth 4 yng Nghanolfan Iechyd Bedwas, Rhodfa'r Dwyrain, Bedwas, Caerffili. Cofrestrwyd y gwasanaeth ym mis Chwefror 2012.

Ar adeg yr arolygiad, roedd triniaethau laser yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig yn unig. Lleolir y clinig mewn canolfan iechyd meddygon teulu, ac mae agweddau ar gynnal a chadw'r clinig yn cael eu gweithredu trwy'r ganolfan iechyd.

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol gan ddefnyddio'r Fotona QX Max, ar gyfer cleifion sydd dros 18 oed:

- Gwaredu gwallt
- Ieuangu'r croen
- Gwaredu tatŵ
- Triniaethau fasgwlaidd
- Pigmentiadau'r croen

Cynhaliodd AGIC arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r gwasanaeth ar 5 Awst 2015.

## 4. Crynodeb

Roedd ymatebion i holiaduron AGIC yn dangos bod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth am y triniaethau, ond gwnaethom argymell bod y clinig yn darparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion. Canfuom nad oedd y clinig wedi bod yn casglu barn ac adborth gan y cleifion yn rheolaidd, a gwnaethom argymell bod y clinig yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y triniaethau laser yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion yn y clinig mewn ffordd ddiogel. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddefnyddio offer laser. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod contract ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r ymweliad diwethaf ar gael, a gwnaethom ofyn i'r clinig anfon copïau at AGIC. Gwelsom fod y dyddiad ar y rheolau lleol yn dangos nad oeddent wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethom argymell bod y clinig yn adolygu'r mater hwn gyda'r cynghorydd diogelu rhag laserau.

Roedd y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus. Gwelsom nad oedd arwyddion er mwyn dangos yr allanfeydd tân, a gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig ar y mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Mae Cosmeticlinic yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, ac mae triniaethau laser yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig yn unig, sydd hefyd yn ymarfer fel meddyg teulu. Roedd gan y clinig nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond canfuom fod angen eu hadolygu. Canfuom hefyd fod gan y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth o'r safonau gofynnol cenedlaethol, ond bod angen gwella ei ymwybyddiaeth o’r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4.

Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn: y canllawiau i gleifion, y datganiad o ddiben, addasrwydd y safle a'r rheolwr, polisïau a gweithdrefnau, a monitro ansawdd y gwasanaeth. Mae manylion pellach ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wella yn Atodiad A. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau gweithredu ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Roedd ymatebion i holiaduron AGIC yn dangos bod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth am y triniaethau, ond gwnaethom argymell bod y clinig yn darparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion. Canfuom nad oedd y clinig wedi casglu barn ac adborth gan y cleifion yn rheolaidd, a gwnaethom argymell bod y clinig yn casglu'r wybodaeth hon, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd chwe holiadur cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd cleifion eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau bod y clinig yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn garedig, yn gwrando ar y cleifion, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaeth yr holl gleifion nodi lefel uchel o foddhad ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd copi o'r canllawiau i gleifion ar gael yn y dderbynfa. Roedd y wybodaeth yn y canllawiau'n glir, ond nid oedd yn cynnwys crynodeb o farn/adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllawiau i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o farn/adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth.***

Gwelsom fod yr holl wybodaeth briodol ynglŷn â chleifion a thriniaethau yn cael ei chofnodi. Gwelsom hefyd gofnod oedd yn dangos bod cleifion wedi cwblhau ffurflenni hanes meddygol cychwynnol. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau i hanesion meddygol yn cael eu gwirio ar lafar ar bob triniaeth, ond gwnaethom argymell bod y clinig yn gofyn i gleifion lofnodi i gadarnhau hyn. Roedd y clinig hefyd yn gofyn i gleifion lofnodi ffurflen gydsynio â thriniaeth ysgrifenedig. Roedd cofrestr o driniaethau yn cael ei chadw ar gyfer y peiriant laser a oedd yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol am gleifion a thriniaethau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob claf yn cael sesiwn ymgynghori cyn cael y driniaeth, a gwelsom fod gwybodaeth ynglŷn â risgiau posibl y driniaeth ar y ffurflen gydsynio â thriniaeth ysgrifenedig. Roedd triniaeth a gofal ôl-driniaeth yn cael eu hesbonio i gleifion ar lafar, ond gwnaethom argymell bod y clinig yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig er mwyn i gleifion fynd dros y wybodaeth hon ar ôl eu hapwyntiad.

Canfuom nad oedd y clinig wedi bod yn casglu barn ac adborth gan y cleifion yn rheolaidd, megis cynnal holiaduron blynyddol fel y nodir yn natganiad o ddiben y clinig. Gwnaethom argymell bod y clinig yn cynnal a dadansoddi holiaduron cleifion yn rheolaidd, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r gofynion rheoleiddiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r clinig gasglu barn ac adborth gan y cleifion yn rheolaidd, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.***

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddangos ei fod yn deall yr angen i barchu a chadw preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau ar waith er mwyn i gleifion gael lle preifat i newid cyn derbyn triniaeth; roedd drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod y driniaeth, ac roedd cleifion yn gallu gofyn i rywun fod gyda nhw yn ystod y driniaeth.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y triniaethau laser yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion yn y clinig mewn ffordd ddiogel. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddefnyddio offer laser. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod contract ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r ymweliad diwethaf ar gael, a gwnaethom ofyn i'r clinig anfon copïau at AGIC. Gwelsom fod y dyddiad ar y rheolau lleol yn dangos nad oeddent wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethom argymell bod y clinig yn adolygu'r mater hwn gyda'r cynghorydd diogelu rhag laserau.**

**Roedd y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus. Gwelsom nad oedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, a gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig ar y mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau a'r dogfennau a oedd yn ymwneud â'r peiriant laser. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod hyfforddiant gwybodaeth graidd[3] wedi'i gwblhau, a bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau cwrs manwl ar therapïau laser yn 2013.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau, sy'n darparu cyngor arbenigol ynglŷn ag offer laser. Dywedwyd wrthym y bydd y cynghorydd diogelu rhag laserau yn ymweld â'r safle ym mis Medi 2015. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion yr ymweliad diwethaf gan y cynghorydd diogelu rhag laserau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid cynnal cofnodion o gysylltiadau â'r cynghorydd diogelu rhag laserau ynglŷn ag asesu ac arolygu'r safle.***

***Rhaid anfon copi o adroddiad diweddaraf y cynghorydd diogelu rhag laserau at AGIC.***

---

[3] Hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer amryw driniaethau croen yw hyfforddiant gwybodaeth graidd. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

Gwelsom fod rheolau lleol ar waith, a oedd yn dangos manylion ynglŷn â sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel. Roedd y rhain wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a'r cynghorydd diogelu rhag laserau. Gwelsom mai 2012 oedd y dyddiad ar y rheolau, a gwnaethom argymell bod y clinig yn adolygu'r rheolau hyn gyda'r cynghorydd diogelu rhag laserau – a dylid gwneud hyn bob blwyddyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r rheolau lleol bob blwyddyn.***

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos mai mis Mai 2014 oedd y tro diwethaf i'r peiriant laser gael ei wasanaethu, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dylid cynnal y gwasanaeth hwn yn flynyddol, a chan fod y dyddiad ar gyfer y gwasanaeth wedi mynd heibio, gwnaethom argymell bod y clinig yn gwneud trefniadau ar gyfer hyn cyn gynted ag y bo modd. Dywedwyd wrthym y bu problemau wrth drefnu i'r peiriannydd ddod i'r clinig i wneud gwasanaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i’r peiriant laser gael gwasanaeth calibro cyfredol.***

Gwelsom fod clo cyfunrhif ar ddrws yr ystafell driniaeth, a oedd y cael ei gloi yn ystod triniaethau, gydag arwydd a golau y tu allan i ddangos bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael – ar gyfer y claf yn ogystal ag unrhyw un sydd wedi dod gyda’r claf. Dywedwyd wrthym ei fod yn cael ei wirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod yr allwedd ddynodedig sy’n cychwyn y peiriant laser yn cael ei thynnu pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, ac yn cael ei storio'n ddiogel i atal unrhyw un rhag defnyddio'r peiriant heb ganiatâd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r safle. Dywedwyd wrthym fod y gwaith gwifro yn yr adeilad yn cael ei wirio bob pum mlynedd trwy'r ganolfan iechyd. Gwelsom nad oedd profion dyfeisiau cludadwy, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio, wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Er nad yw cynnal profion dyfeisiau cludadwy yn ofynnol o dan y gyfraith, mae Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 yn mynnu bod offer trydanol yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel. Y ffordd orau o fodloni'r gofyniad hwn yw cynnal profion dyfeisiadau cludadwy, a dylid defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar risg er mwyn pennu amlder y profion, gan ystyried y math o offer ac ar gyfer pa dasgau mae'n cael ei ddefnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

**Mae'n rhaid cadw pob eitem o offer trydanol mewn cyflwr diogel, ac er mwyn cyflawni hyn, dylid cynnal profion dyfeisiau cludadwy. Dylid defnyddio dulliau**

**sy'n seiliedig ar risg wrth ystyried pa mor aml y dylid cynnal profion dyfeisiau cludadwy.**

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu. Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw'r unig berson sy'n gweithio yn y clinig, nid oedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwelsom nad oedd arwyddion i'r allanfeydd tân o'r man i fyny'r grisiau. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe gytunodd i fynd i'r afael ag ef. Canfuom hefyd nad oedd asesiad risg tân wedi cael ei gynnal.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag perygl tân, yn enwedig y pwyntiau canlynol:***

- ***Rhaid codi arwyddion i'r allanfeydd tân***
- ***Rhaid cwblhau asesiad risgiau tân***

Gwelsom fod y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus. Dywedwyd wrthym fod yr holl wastraff yn cael ei gasglu a'i waredu trwy'r ganolfan iechyd. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ond nid oedd amserlenni glanhau'n cael eu cynnal.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid cwblhau'r amserlenni glanhau yn y clinig.***

Gwnaethom drafod y trefniadau mewn argyfwng â'r rheolwr cofrestredig, a gadarnhaodd ei fod yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant yn ddiweddar ar ddadebru cardio-pwlmonaidd. Dywedodd wrthym fod cyfarpar dadebru brys ar gael i lawr grisiau yn y ganolfan iechyd.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae Cosmeticlinic yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, ac mae triniaethau laser yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig yn unig, sydd hefyd yn ymarfer fel meddyg teulu. Roedd gan y clinig nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond gwelsom fod angen eu hadolygu. Canfuom hefyd fod gan y rheolwr cofrestredig  ddealltwriaeth o'r safonau gofynnol cenedlaethol, ond bod angen gwella ei ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4.**

Mae Cosmeticlinic yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, ac mae triniaethau laser yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig yn unig, sydd hefyd yn ymarfer fel meddyg teulu. Daeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau bod y clinig yn rhoi pwyslais ar ddarparu lefelau uchel o ofal a thosturi ar gyfer cleifion.

Roedd datganiad o ddiben ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth glir am y clinig, ac roedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom fod angen diweddaru cyfeiriad AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid diweddaru cyfeiriad AGIC yn natganiad o ddiben y clinig.***

Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r clinig, a gweld nad oeddent wedi cael eu hadolygu yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Gwnaethom argymell bod y clinig yn cynnwys cofnod archwilio mwy eglur i ddangos pryd roedd polisïau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Gwelsom hefyd fod gan y clinig asesiad risg amgylcheddol ar waith, ond roedd angen adolygu hwn hefyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

Rhaid adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen. Rhaid cynnal yr adolygiad o leiaf unwaith bob tair blynedd.

***Rhaid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol.***

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac ar amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Dywedwyd wrthym nad oedd plant yn derbyn triniaeth yn y clinig.

Gwelsom fod cofnodion cleifion a gwybodaeth am driniaethau laser yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel mewn cwpwrdd ffeiliau dan glo, er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf.***

Roedd gan y clinig bolisi cwyno, ond roedd yn rhaid iddo gynnwys cyfeiriad a manylion cyswllt cyfredol AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r polisi cwyno er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt cyfredol AGIC.***

Dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi derbyn unrhyw gwynion – yn ysgrifenedig nac ar lafar. Gwnaethom argymell bod y clinig yn sicrhau ei fod yn cofnodi unrhyw gwynion llafar a wneir, er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg.

Er inni ganfod bod gan y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth o'r safonau gofynnol cenedlaethol, roedd angen gwella ei ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4. Gwnaethom argymell bod y clinig yn ymgyfarwyddo â'r safonau a'r rheoliadau cyn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â nhw'n llwyr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol.***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i roi sicrwydd i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, rheoleiddwyr, a rhanddeiliaid eraill ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Cosmeticlinic derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan Cosmeticlinic mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth: Cosmeticlinic

## Dyddiad yr Arolygiad: 5 Awst 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllawiau i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o farn/adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth. | Rheoliad 7 | Bydd y canllawiau i gleifion yn cael eu diweddaru er mwyn iddynt gynnwys y crynodeb hwn. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| 7 | Rhaid i'r clinig gasglu barn ac adborth gan y cleifion yn rheolaidd, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. | Rheoliad 19 (e) | Bydd arolwg o ddetholiad o gleifion yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Byddwn hefyd yn rhoi llyfr sylwadau yn y man aros er mwyn i gleifion wneud sylwadau neu awgrymiadau ar wahân i'r arolwg blynyddol. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Rhaid cynnal cofnod o gysylltiadau â'r | Rheoliad 9 | Mae archwiliad gan y cynghorydd | Dr Kaushal | 30/09/2015 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cynghorydd diogelu rhag laserau ynglŷn ag asesu ac arolygu'r safle.<br>Rhaid anfon copi o adroddiad diweddaraf y cynghorydd diogelu rhag laserau at AGIC. | (1) (e) | diogelu rhag laserau wedi cael ei drefnu, ac fe anfonir copi o'r adroddiad hwn at AGIC cyn gynted ag y bydd wedi cyrraedd.<br>Rydym yn cadw cofnod i nodi pan fydd angen adnewyddu'r asesiad risgiau laser, ac fe fyddwn yn cadw cofnod o'r holl gysylltiadau â'r cynghorydd diogelu rhag laserau yn ystod y flwyddyn. Os nad oes angen cysylltu ag ef, byddwn yn nodi hynny yn y cofnod. | | |
| 9 | Rhaid diweddaru'r rheolau lleol bob blwyddyn. | Safon 16 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol | Mae gennym gontract ar waith gyda Lasermet Ltd. Bydd ein cynghorydd diogelu rhag laserau'n ymweld â ni bob blwyddyn i ddiweddaru'r rheolau lleol. Bydd ein harolygiad blynyddol nesaf ar 2 Hydref 2016. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| 9 | Rhaid i'r peiriant laser gael gwasanaeth calibro cyfredol. | Rheoliad 45 (3) (d) | Cafodd y peiriant hwn ei galibro ar 29 Medi 2015. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| 9 | Mae'n rhaid cadw pob eitem o offer trydanol mewn cyflwr diogel, ac er mwyn cyflawni hyn, dylid cynnal | Rheoliad 26 (2) (a) | Anfonwyd cais, ac rydym yn aros i beiriannydd ddod i'r clinig i gynnal profion dyfeisiau cludadwy. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | profion dyfeisiau cludadwy. Dylid defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar risg wrth ystyried pa mor aml y dylid cynnal profion dyfeisiau cludadwy. | | Byddwn yn gofyn i'r peiriannydd pa mor aml y dylent gael eu cynnal, a bydd y clinig yn adolygu ac yn gweithredu profion dyfeisiau cludadwy yn unol â'i argymhellion. | | |
| 10 | Rhaid sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag perygl tân, yn enwedig y canlynol:<br>Rhaid codi arwyddion i’r allanfeydd tân<br>Rhaid cwblhau asesiad risgiau tân | Rheoliad 26 (5) (b) | Mae asesiad risgiau tân wedi cael ei gwblhau.<br>Rydym wedi archebu arwyddion allanfa dân, ac ar hyn o bryd rydym yn aros iddynt ddod. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| 10 | Rhaid cynnal amserlenni glanhau yn y clinig. | Rheoliad 9 (n) | Mae'r amserlenni hyn wedi cael eu cyflwyno a byddant yn cael eu hadolygu yn barhaus. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| **Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 11 | Rhaid diweddaru cyfeiriad AGIC yn natganiad o ddiben y clinig. | Rheoliad 8 | Yn flaenorol, roedd hwn yn cynnwys rhif ffôn anghywir. Mae’r rhif hwn wedi cael ei ddiweddaru, ac mae bellach yn cynnwys y manylion cyswllt cywir. | Dr Kaushal | 16/09/2015 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Rhaid adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen. Rhaid cynnal yr adolygiad o leiaf unwaith bob tair blynedd.<br><br>Rhaid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol. | Rheoliad 9 (6) | Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae taflen adolygu polisïau a gweithdrefnau wedi cael ei chwblhau er mwyn dangos lle y gwnaed newidiadau. Rydym wedi pennu dyddiad ar gyfer adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau bob blwyddyn gyda'n cynghorydd diogelu rhag laserau.<br><br>Cynhelir asesiad risg o'r man laserau a reolir yn ystod ymweliad ein cynghorydd diogelu rhag laserau â'r lleoliad. | Dr Kaushal | 16/09/2015 |
| 12 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf. | Rheoliad 12 (2) (c) ac Atodlen 2 | Gwnaed cais am y dystysgrif hon ac fe fydd ar waith cyn bo hir. | Dr Kaushal | 30/09/2015 |
| 12 | Rhaid diweddaru'r polisi cwyno er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt cyfredol AGIC. | Rheoliad 24 (4) (ab) | Yn flaenorol, roedd hwn yn cynnwys rhif ffôn anghywir. Mae'r rhif hwn wedi cael ei ddiweddaru, ac mae bellach yn cynnwys y manylion cyswllt cywir. | Dr Kaushal | 16/09/2015 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Rhaid gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol.<br><br>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i roi sicrwydd i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, rheoleiddwyr, a rhanddeiliaid eraill ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. | Rheoliad 19 (1) (a) | Rydym wedi creu ffolder newydd er mwyn storio'r holl dystiolaeth i ddangos sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r ffolder yn egluro pob safon ac yn nodi pa dystiolaeth a/neu bolisi sydd ar waith gennym er mwyn cynnal y safon honno. Defnyddir y ffolder hon er mwyn rhoi sicrwydd i'n staff, ein cleifion, ac i AGIC fod gennym systemau a phrosesau diogel ar waith.<br><br>Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfod gyda'n cynghorydd diogelu rhag laserau (a gynhelir ar 2 Hydref 2015), a bydd yntau'n rhoi cyngor inni ar unrhyw fesurau ychwanegol y mae'n credu sydd eu hangen er mwyn gwella ein hymwybyddiaeth o'r rheoliadau. | Dr Kaushal | 16/09/2015 |

**Cynrychiolydd y Gwasanaeth:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Dr Subhash Kaushal** |
| **Teitl:** | **Y Rheolwr Cofrestredig** |
| **Dyddiad:** | **30/09/2015** |